

Credyd Cynhwysol: Prif awgrymiadau ar gyfer landlordiaid

Mis Tachwedd 2018

Sicrhewch fod eich tenantiaid yn ymwybodol o faint y mae eu rhent



Siaradwch â'ch tenantiaid yn fuan i sicrhau eu bod yn gwybod faint yw eu rhent, a'u bod yn barod i dalu eu rhent yn uniongyrchol i chi.

Gwnewch gais am Drefniant Taliad Amgen



Os oes gennych denantiaid sy'n cael trafferth o bosibl talu eu rhent neu sydd mewn ôl-ddyledion, gallwch wneud cais i gael costau tai wedi'u talu'n uniongyrchol i chi o ddechrau eu hawliad.

Gall hawlwr wneud cais am daliad ymlaen llaw



Ydych chi'n ymwybodol bod hawlwr Credyd Cynhwysol newydd yn gallu gwneud cais am daliad ymlaen llaw o ddechrau eu cais a allai helpu i dalu am eu rhent a'u biliau?

Cymorth ychwanegol i hawlwr Budd-dal Tai



Atgoffwch y tenantiaid sy'n symud o Fudd-dal Tai i Gredyd Cynhwysol y byddant yn cael pythefnos ychwanegol o gymorth Budd-dal Tai yn awtomatig ac nid oes angen iddynt dalu'n ôl.

Deall yr opsiynau



Yn yr Alban, gall tenantiaid ddewis talu eu costau tai yn uniongyrchol i'w landlord neu eu hunain. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall yr holl opsiynau fel y gallwch roi'r cyngor gorau posibl.

Anogwch denantiaid i osod debydau uniongyrchol



Byddant angen cyfrif banc ar gyfer eu taliadau Credyd Cynhwysol, a gall cael trefniant ddebyd uniongyrchol neu archeb sefydlog eu helpu i sicrhau bod eu taliadau rhent yn cael eu gwneud ar amser.

Dewch i adnabod eich Rheolwr Partneriaeth



Adeiladwch cysylltiadau cryf gyda'ch Rheolwr Partneriaeth - gallant rannu cysylltiadau i'ch helpu i ddatrys materion cymhleth.

Anogwch denantiaid i hawlio ar unwaith



Anogwch denantiaid sydd gyda newid mewn amgylchiadau, fel colli eu swydd, i wneud cais am Gredyd Cynhwysol ar unwaith fel eu bod yn gallu parhau i dalu eu rhent.

Gwnewch yn siŵr bod gan eich tenant y gwaith papur cywir



Os ydych yn landlord preifat, bydd angen i chi rhoi gwaith papur perthnasol wedi'i lofnodi i'ch tenantiaid sy'n cadarnhau faint yw eu hatebolrwydd rhent, gan fod hyn yn ofynnol ar gyfer y broses wirio.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar gyfer landlordiaid yn [understandinguniversalcredit.gov.uk/landlordiaid](https://www.gov.uk/landlordiaid), lle gallwch hefyd ddarganfod sut i gysylltu â thimau partneriaeth DWP.